**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.***

**WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* 27.11.20**

Unwaith eto, llawer iawn o ddiolch am eich cydweithrediad parod wrth i ni orfod newid ein trefniadau oherwydd y gwaith adeiladu ar hyn o bryd. Gwerthfawrogir yn fawr eich parodrwydd i fod mor hyblyg a pharod i gydweithio â ni fel ysgol. Fe fydd addasiadau pellach yn gorfod digwydd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, a gobeithir gallu rhoi digon o rybudd i chi ymlaen llaw am unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd wrth i bethau ddatblygu ymhellach.

*Once again, very many thanks for your co-operation as we have to adapt our arrangements due to the building work at present. Your ability to work collaboratively with us as a school is greatly appreciated. Further adaptations will have to be made as the work progresses, and it is sincerely hoped that we will be able to give you sufficient notice of any changes that will occur as the work develops further.*

## DECHRAU A DIWEDD Y DYDD – *BEGINNING AND END OF THE DAY.*

Er mwyn cadw'r niferoedd ddaw i safle/ar gyrion yr ysgol, atgoffir pawb mai UN o bob teulu ddylai ddod â'r plant yn y bore a'u casglu ar ddiwedd y dydd.

Diolch am ymateb mor bositif i alwad y Cynulliad ar i oedolion wisgo mwgwd wrth ddod ar safle'r ysgol. Atgoffir pawb i geisio cadw at reol yr ymbellhau o ddwy fedr cymaint fyth ag sydd bosib os gwelwch yn dda.

*In order to limit the number of people who come near the school, everyone is reminded that it is ONE from each family that should come on the site at the beginning and end of the school day.*

*Thank you for your positive response to the Assembly's request for adults to wear a mask on the school grounds. Everyone is reminded also to try their very best to adhere to the two metre social distancing rule please.*

## DIWRNOD Y CELTIAID – *DAY OF THE CELTS.*

Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod i'w gofio heddiw, pan wnaed amrywiaeth o weithgareddau yn seiliedig ar thema'r Celtiaid yn ystod y dydd. Bu'r cyfan yn brofiad gwerthfawr i bob un ohonynt, ac roedd pawb yn werth eu gweld wedi'u gwisgo fel person o Oes y Celtiaid.

*Years 3 and 4 pupils had a memorable time today, when various activities based on the Celts were enjoyed during the day. It was all a worthwhile experience for each and every one of them, and everyone looked wonderful dressed up as one of the Celts.*

## <u>CINIO AM DDIM – *FREE DINNERS*</u>

Rhag ofn bod unrhyw deulu yn credu eu bod yn deilwng i gael cinio am ddim i'w plant yn yr ysgol, fe'ch anogir i lenwi'r ffurflen briodol sydd ar gael ar wefan Sir y Fflint cyn gynted ag sydd bosib, fel y gellir cael cadarnhad o hynny.

*In case any family believes that they are entitled to receive free lunch for their child/ren in school, you are encouraged to fill in the appropriate form which is on the Flintshire website as soon as possible, so that confirmation can be given for any entitlement.*

## <u>NADOLIG 2020 *CHRISTMAS.*</u>

Er y bydd y Nadolig yn bur wahanol i bawb eleni, fe fyddwn yn ceisio trefnu rhai gweithgareddau, gyda chymorth Ffrindiau Glanrafon, ar gyfer ein holl ddisgyblion er mwyn sicrhau y bydd yn achlysur cofiadwy i bawb eleni eto.

Cawsom wybod yr wythnos hon y bydd cinio Nadolig yn cael ei ddarparu i holl ddisgyblion yr ysgol, a chaiff hwnnw ei weini ddydd Mercher, Rhagfyr 9fed.

Fe'ch hysbysir y bwriadwn gynnal Diwrnod Siwmperi Nadolig **<u>ddydd Gwener, Rhagfyr 10fed.</u>** a gofyn i bawb gyfrannu £1 yr un tuag at Gronfa Achub y Plant am gael gwneud hynny.

*Although Christmas will be quite a different occasion this year, we do intend to organise some activities, with the help of the Friends of Glanrafon, for all our pupils in order to ensure that it will be a memorable time for everyone again this year.*

*We have been informed this week that a Christmas lunch will be prepared for all those pupils who wish to have one, and this will be served on Wednesday, December 9th.*

*You are informed that we intend to have a Christmas Jumper Day on **<u>Friday, December 11th.,</u>** and contribute a £1 per pupil towards Save the Children for doing so.*

## <u>EITEMAU O WISG YSGOL – *ITEMS OF SCHOOL UNIFORM.*</u>

Os yr hoffech brynu eitemau o wisg ysgol ail law, fe'ch hatgoffir bod yna gyflenwad o rai mewn cyflwr da iawn ar gael am £1 yr eitem yn yr ysgol. Mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol a gellir gwneud trefniadau i chi eu cael cyn gynted ag sydd bosib.

*If you would like to buy any second hand items of school clothing, you are reminded that there are some good quality ones available to buy for £1 per item in school. You are welcomed to contact school and arrangements can be made for you to receive them as soon as possible.*

**MWYNHEWCH Y PENWYTHNOS A CHADWCH YN DDIOGEL – *ENJOY THE WEEK END AND PLEASE KEEP SAFE!***